

## Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3537A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Pe byddai cais am wybodaeth yn dod i law y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti'on perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd parti'on perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon cael eu hanfon at Archwilio Cymru ar [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi adolygu a chyflwyno newidiadau i drefniadau trosolwg a chraffu, a bod statws uwch i graffu o fewn y broses ddemocrataidd. Er hynny, mae cyfleoedd i gryfhau cyfraniad, statws a thraweffaith craffu ymhellach.

## Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 5

## Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sydd yn arfogi aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif 7

Mae'r Cyngor wedi datblygu meini prawf i lunio rhaglen flynyddol eitemau craffu, ond mae cyfle i gryfhau'r aliniad gyda rhaglen waith y Cabinet a Chynllun y Cyngor 8

Er bod enghreifftiau lle mae mewnbwn craffu wedi cyfrannu at benderfyniadau'r Cabinet, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer olrhain effaith craffu. Nid yw'r pwyllgorau craffu cyhoeddus yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y gyfundrefn rheoli perfformiad diweddaraf 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Cynhaliwyd yr arolwg hwn er mwyn sefydlu a oes gan Gyngor Gwynedd (y Cyngor) drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer craffu drwy'r pwyllgorau cyhoeddus. Amcan yr arolwg oedd rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar gyfer craffu cyhoeddus yn y pwyllgor mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol ynghyd â helpu i ymgynghori gwaith craffu effeithiol gan aelodau etholedig o gychwyn y cylch etholiadol cyfredol hwn. Roedd y gwaith hefyd yn olrhain cynnydd y Cyngor ers adolygiad a wnaed o drefniadau craffu holl awdurdodau lleol Cymru yn ystod 2017-2018<sup>1</sup>; cyhoeddwyd y canfyddiadau cenedlaethol, sef *Chwe Thema*, yn 2019<sup>2</sup>.
- 2 Drwy gyfuniad o adolygu dogfennau mewnol a chyhoeddus, arsylwi pwyllgorau, cynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws, fe geisiodd dystiolaeth oedd yn ateb yr is-gwestiynau a ganlyn, yn ymwneud ag amgylchedd, ymarfer ac effaith craffu:
  - A yw'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol?
  - A yw gweithrediad y swyddogaeth graffu wedi'i gynllunio'n dda, yn effeithlon, yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau?
  - A yw gweithgarwch trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau?
- 3 Ymgwymerwyd â'r adolygiad yn ystod mis Chwefror i Ebrill 2023.

### Yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod

- 4 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer craffu drwy'r pwyllgorau cyhoeddus?
- 5 Canfuom bod y Cyngor wedi adolygu a chyflwyno newidiadau i drefniadau trosolwg a chraffu, a bod statws uwch i graffu o fewn y broses ddemocrataidd. Er hynny, mae cyfleoedd i gryfhau cyfraniad, statws a thraweffaith craffu ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
  - mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sydd yn arfogi aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif.

<sup>1</sup>Cyhoeddiad Archwilio Cymru (2018): [Cyngor Gwynedd – Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y dyfodol?](#)

<sup>2</sup>Cyhoeddiad Archwilio Cymru (2019): [Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'](#)

- mae'r Cyngor wedi datblygu meini prawf i lunio rhaglen flynyddol eitemau craffu, ond mae cyfle i gryfhau'r aliniad gyda rhaglen waith y Cabinet a Chynllun y Cyngor.
- er bod enghreifftiau lle mae mewnbwn craffu wedi cyfrannu at benderfyniadau'r Cabinet, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer olrhain effaith craffu. Nid yw'r pwyllgorau craffu cyhoeddus yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y gyfundrefn rheoli perfformiad diweddaraf.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

#### Argymhellion

##### Llunio rhaglen craffu

**A1** – Dylai blaenraglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaenraglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet.

##### Amlygu gwybodaeth perfformiad

**A2** – Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir.

##### Hyfforddiant

**A3** – Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol.

##### Cryfhau ystyriaeth ddeddfwriaethol

**A4** – Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais priodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.

## Argymhellion

---

### Ymchwiliadau craffu

**A5** - Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno'r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu'r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo'r cyhoedd yn ogystal.

---

### Olrhain effaith craffu

**A6** - Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sydd yn arfogi aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif

- 6 Ceir enghraifft o bwyllgorau yn craffu materion a aiff gerbron y Cabinet ac yn cyflwyno sylwadau am welliannau neu ystyriaethau pellach. Er hyn, canran fechan o eitemau'r Cabinet sydd wedi eu blaengraffu. Mae rhaglen waith craffu hefyd wedi ystyried naw o eitemau yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor 2018-23, ond nid yw'n hysbys sut adroddir prif ganfyddiadau ac argymhellion y craffu hwnnw i'r Cabinet.
- 7 Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant 'craidd' a dewisol wedi'i lunio ar gyfer aelodau yn gyffredinol gyda chyfle iddynt ddylanwadu ar yr arlwy drwy gyflwyno adborth ffurfiol i'r sesiynau a drefnir yn ganolog. Darperir hyfforddiant penodol i graffu gan y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.
- 8 Mae aelodau wedi derbyn hyfforddiant ar hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er hynny maent yn cydnabod nad ydynt wedi'u harfogi ar gyfer craffu cydymffurfiaeth y cynlluniau a darpar benderfyniadau a gyflwynir iddynt â'r Pum Ffordd o Weithio. Yn yr un modd, nid oes trefniadau aeddfed ar gyfer craffu cydymffurfiaeth gyda Deddf Cydraddoldeb 2010 nac yn cael mynediad at ganlyniadau asesiadau effaith cydraddoldeb.
- 9 Byddai aelodau pwyllgorau craffu yn elwa o dderbyn rhagor o hyfforddiant yn ymwneud yn benodol â chraffu. Er bod darparwr allanol wedi'i adnabod ar gyfer cynnal sesiwn ar holi cwestiynau craffu, nid oes sesiynau wedi eu cynnal yn ddiweddar ac mae cyfle i wneud defnydd helaethach o ddarparwyr allanol gan gynnwys cyrff fel CIPFA a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 10 Mae aelodau o'r farn mai'r un cnewyllyn o unigolion sydd yn cytuno i wasanaethu ar ymchwiliadau a grwpiau tasg a gorffen, a bod yr ymroddiad yma yn feichus o ran amser. Mae'r Centre for Public Scrutiny yn nodi y caiff aelodau gweithgor neu grŵp tasg a gorffen eu cynnull o blith unrhyw bwyllgor neu heb fod yn aelod craffu, cyn belled nad ydynt yn aelod o'r Cabinet.<sup>3</sup> Pan nad oes digon o aelodau o un pwyllgor craffu ar gael, maent eisoes yn estyn gwahoddiad i aelodau etholedig yn gyffredinol ac mae cyfle i ystyried estyn y gwahoddiad i bawb o'r cychwyn gyda'r potensial i gynnwys aelodau sydd â gwir ddiddordeb yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad. Mae'r trefniadau cyfredol ond yn estyn gwahoddiad i grŵp ehangach pan mae ffurfio grŵp wedi methu, ac yn cwtogi cyfle i ddenu mewnbwn gan drawstoriad ehangach o aelodau.
- 11 Mae swyddogaeth craffu yn cael ei werthfawrogi yn y Cyngor. Er hynny mynegwyd rhwystredigaeth ar yr achlysuron pan oedd eitemau i bwyllgor yn llithro ar fyr rybudd, oedd yn peri i rai cwestiynu os oedd statws priodol i graffu.

<sup>3</sup>Cyhoeddiad Local Government Association (2017): [A councillor's workbook on scrutiny \(local.gov.uk\)](https://www.local.gov.uk)

- 12 Mae'r Cyngor wedi myfyrio ar ddiben swyddogaeth craffu yng nghyd-destun yr adnoddau oedd ar gael ar ffurf arolwg yn 2019, yn unol ag argymhelliad gan Archwilio Cymru. Ymddengys bod yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi craffu wedi cynyddu ers arolwg 2019, ond mae yn llai na'r cyfnod cyn 2017.
- 13 Mae Aelodau'r Cabinet yn cydnabod bod cyfraniadau craffu yn gwella penderfyniadau, ond mae ambell un o'r farn nad ydynt yn cael eu herio'n ddigonol. Mynegodd rhai aelodau y byddai cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i graffu yn arfogi'r aelodau i fod yn fwy effeithiol.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu meini prawf i lunio rhaglen flynyddol eitemau craffu, ond mae cyfle i gryfhau'r aliniad gyda rhaglen waith y Cabinet a Chynllun y Cyngor

- 14 Mae proses trylwyr ar gyfer dewis a dethol eitemau i'w cynnwys gan gynnwys meini prawf rhesymol a chymesur ond mae cynllunio ymlaen wedi'i gyfyngu i 12 mis yn hytrach na rhaglen dreigl gyhoeddus. Mae aelodau craffu wedi cyfrannu (gerfydd y Fforwm Craffu) at lunio'r fethodoleg i ddethol eitemau i'r rhaglen waith a strwythur y pwyllgorau. At ei gilydd mae hyn wedi lleihau'r tebygrwydd y bydd eitem 'er gwybodaeth'.
- 15 Fodd bynnag, llunnir blaenraglen y Cabinet chwe mis o flaen llaw ac felly mae risg bod ail hanner y flwyddyn o rhaglen waith craffu heb alinio cystal gyda blaenraglen y Cabinet. Roedd swyddogion yn cydnabod y byddai Cynllun y Cyngor 2023-28 yn darparu nifer o eitemau potensial i'w craffu dros y cyfnod nesaf, gyda'r gallu i siapio blaenraglen hir dymor.
- 16 Mae swyddogion ac aelodau o'r farn bod gweithgareddau craffu yng Nghyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar graffu cyn gwneud penderfyniad sydd yn cyfoethogi datblygiad polisïau, cynlluniau a strategaethau. Er hynny, canran fechan o eitemau'r Cabinet sydd wedi bod gerbron y pwyllgorau craffu o flaen llaw, a lleiafrif o eitemau craffu sydd yn bwydo negeseuon i benderfyniadau'r Cabinet.
- 17 Nid oes enghreifftiau amlwg o ymgysylltu â'r gymuned o fewn rhaglen waith ddiweddaraf y pwyllgorau craffu. Roedd ymchwiliadau craffu yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned, ond prin y maent wedi eu cynnal yn ddiweddar. Yn dilyn cyfnod o gynnal nifer cyfartalog o dri y flwyddyn hyd at ac yn cynnwys 2017 ac yna tri yn 2019, mae'r Cyngor wedi cychwyn un ymchwiliad yn 2023. Nodwyd prinder swyddogion fel un rheswm am y gostyngiad.
- 18 Mae tudalen wybodaeth pwyllgorau craffu ar safle we'r Cyngor yn egluro bod modd i'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd ac i gynnig meysydd i fod yn destun ymchwiliad craffu (cynigir cymorth dros y ffôn i gwblhau'r ffurflen) ac yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer cyflwyno sylwadau yn gyffredinol. Nid yw hun ynddo ei hun yn debygol o ddenu fawr ymateb.
- 19 Mae Cadeiryddion yn ystyried amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys adroddiadau rheoleiddwyr. Nid yw adroddiadau holl rheoleiddwyr yn cael eu craffu yn ffurfiol mewn pwyllgor.



- 20 Mae'r Cyngor wedi llunio Llawlyfr Craffu sy'n cynnwys elfennau defnyddiol e.e., trafod sut mae blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu bodloni. Byddai datblygu ymhellach a chynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch adolygu a datblygu polisi a chraffu gwerth am arian yn galluogi aelodau wneud y defnydd gorau ohono.
- 21 Mae'r nifer presennol o eitemau ar yr agenda (dwy neu dair prif eitem) yn caniatáu amser i roi sylw priodol iddynt. Mae'r nifer yma yn annigonol yn nhyb rhai aelodau, tra bo eraill yn dymuno rhagor o amser i graffu eitemau.
- 22 Mae pwyllgorau craffu yn elwa o sgiliau cadeirio da. Mae achlysuron pan mae aelodau yn colli ffocws a gwneud sylwadau am eu ward neu holi swyddogion am faterion sy'n ymylol i'r eitem dan sylw, sydd yn awgrymu bod cyfle i hogi eu ffocws yn y pwyllgor.
- 23 Mae cadeiryddion ac aelodau craffu ar y cyfan yn ymwybodol o'r pwerau'r pwyllgorau i 'alw i mewn' penderfyniad a wneir gan y Cabinet ac mae swyddogion ar gael i gadarnhau a yw'r camau cyfansoddiadol gofynnol wedi'u bodloni. Nid oes enghreifftiau o hyn yn digwydd yn ddiweddar.
- 24 Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod risg o gynnwys materion corfforaethol dan ofal y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ers i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newid fis Gorffennaf 2022. Mae asesu a yw'r pwyllgor yn ymdopi â'r cynnydd wedi nodi fel pwynt gweithredu ar gyfer tymor yr hydref 2023.

**Er bod enghreifftiau lle mae mewnbwn craffu wedi cyfrannu at benderfyniadau'r Cabinet, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer olrhain effaith craffu. Nid yw'r pwyllgorau craffu cyhoeddus yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y gyfundrefn rheoli perfformiad diweddaraf**

- 25 Mae'r Cyngor yn gefnogol o'r broses craffu, ac mae enghreifftiau lle mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth. Mae rhai o'r materion ystyrir gan y pwyllgor craffu wedi cael eu hadrodd i'r Cabinet, ond mae'r niferoedd yma yn y lleiafrif. Nid yw'n bosib dilyn y llinyn aur sydd yn dangos yr effaith mae craffu wedi ei gael ar gyfer mwyafrif o eitemau'r pwyllgorau craffu.
- 26 Mae'r Cyngor wedi adnabod yn Hunan Asesiad 2021-22<sup>4</sup> bod lle i wella rôl craffu yn y gwaith cynllunio corfforaethol gan sicrhau bod cyswllt rhwng y rhaglen craffu a gwireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a hefyd dwyn y Cabinet i gyfrif ynghylch perfformiad. Cydnabuwyd y dylai'r aelodau craffu gael mynediad at y cofrestrau risg yn ogystal â mesuryddion perfformiad ehangach.

<sup>4</sup> [Hunan-Asesiad-CG-202122.pdf \(llyw.cymru\)](#)

- 27 Mae cynrychiolwyr pwyllgorau craffu yn cael eu gwahodd i arsylwi dau gyfarfod herio perfformiad gwasanaethau y flwyddyn. Nid yw materion yn tueddu i gael eu dyrchafu gan cynrychiolwyr craffu yn dilyn cyfarfodydd herio perfformiad mewnol. O ganlyniad, mae mewnbyn cyfyngedig gan y gyfundrefn craffu yn colli cyfle i ddylanwadu ar berfformiad gwael parhaus. Ymhellach, nid yw'r Cyngor yn llunio un adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o berfformiad ar draws holl wasanaethau, a fyddai caniatáu i'r pwyllgorau craffu, ac unrhyw rhanddeiliaid eraill, ystyried holl wasanaethau mewn un ddogfen.
- 28 Mae enghreifftiau ble dyfynnir sylwadau pwyllgorau craffu mewn cyfarfodydd Cabinet a bod cynigion am welliannau wedi'u hymgorffori cyn gwneud y penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, nid yw'n gwbl hysbys i bawb beth yw'r union drefn neu fecanwaith ar gyfer dyrchafu sylwadau i Cabinet. Er enghraifft, mewn achlysuron lle byddai cyflwyniad llafar yn uniongyrchol gan y Cadeirydd wedi bod yn briodol, y deilydd portffolio sydd i weld yn cyfleu'r negeseuon ar ran y pwyllgor. Mae rhai cynghorau eraill yn gwahodd cynrychiolydd o'r pwyllgorau craffu i gyflwyno eu sylwadau ar lafar, sydd yn amlygu'r llinellau atebolrwydd a rhoi llwyfan i waith y pwyllgorau craffu fel haen annibynnol.
- 29 Mae eitem sefydlog, sef rhif 4 ar raglen y Cabinet ar gyfer 'Materion yn codi o drosolwg a chraffu'. Nodir mai ond unwaith mewn pedair blynedd cyflwynwyd mater oddi tani. Mae sylwadau gan bwyllgorau craffu yn cael eu cynnwys gyda'r eitem briodol ar yr agenda, ond mae diffyg defnydd o eitem safonol 4 yn awgrymu bod cyfle i ail ystyried os gwneir y defnydd gorau o'r dulliau adrodd rhwng craffu a'r Cabinet.
- 30 Mae'r Cyngor yn cofnodi casgliadau'r pwyllgorau craffu cyhoeddus, ond nid ydynt mewn ffurf argymhellion clir, a nid oes ymateb clir a cyhoeddus gan y Cabinet i'r mwyafrif o ganfyddiadau. Nid yw'n bosib olrhain a fu gweithredu pellach, yn enwedig os nad ydynt yn eitemau Cabinet. Nid yw rhanddeiliaid felly yn gweld a oes gweithredu ar yr argymhellion a sylwadau gan y pwyllgorau craffu.
- 31 Mae'r dewis o bynciau craffu yn tueddu i roi digon o bwyslais ar agweddau ble gellir gwneud gwahaniaeth, sydd yn cynnwys craffu gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill. Caiff swyddogion ar ran cyrff eraill, megis y Gwasanaeth Ambiwylans, eu gwahodd i roi cyflwyniad. Disgrifir gweithgaredd o'r fath fel cyfle i'r aelodau drafod gyda chyrff eraill y prif bethau sy'n effeithio ar fywydau bob dydd eu hetholwyr, ond nid yw trefniadau atebolrwydd i'r pwyllgor craffu wedi ffurfioli mewn cytundeb o gyd-ddealltwriaeth neu cyffelyb.





Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd Cf10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.